**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Rhaglen Chraffu

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mawrth, 14 Medi 2021 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P M Black (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| E W Fitzgerald | D W Helliwell | T J Hennegan |
| P K Jones | H Lawson | W G Lewis |
| S Pritchard | G J Tanner | W G Thomas |
| T M White | | |

**Aelodau Cyfetholedig Statudol:**

| | |
|---|---|
| D Anderson-Thomas | A Roberts |

**Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig**

| | | |
|---|---|---|
| C A Holley | S M Jones | J W Jones |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Jeremy Davies | Group Leader Parks and Cleansing |
| Scott Dummett | Lead Lawyer |
| Kate Jones | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Brij Madahar | Cydlynydd Craffu |
| Antony Moss | Energy Manger |
| Alex O'Brien | Property Manager |
| Stuart Willingale | Team Leader Cleansing Strategy |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): C Anderson a/ac C E Lloyd
Aelodau Cyfetholedig Statudol:
Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig: P R Hood-Williams a/ac L R Jones

---

## 37 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol.

Yn unol â'r Cod Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 38 Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau.

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni ddatganwyd pleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

## 39 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 17 Awst 2021 fel cofnod cywir.

## 40 Cwestiynau Gan y Cyhoedd.

Ni chafwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

## 41 Craffu ar Gyfrifoldebau Portffolio Aelodau'r Cabinet.

### Sbwriel a Glanhau'r Gymuned

Roedd Aelod y Cabinet dros Wella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd a swyddogion yn bresennol i ystyried yr adroddiad ar sbwriel a glanhau'r gymuned.

Tynnodd yr Aelod Cabinet sylw at effaith y pandemig ar y gwasanaeth a staff a diolchodd i'r holl staff am eu gwaith a'u hymdrech barhaus yn ystod cyfnod mor anodd. Cafwyd swm digynsail o sbwriel yn ystod y cyfnod hwn, yn ogystal â'r cyfyngiadau ar faint o staff a allai deithio mewn cerbyd gyda'i gilydd. Roedd gwaith dal i fyny'n parhau ac roedd 15 aelod ychwanegol o staff wedi'u cyflogi.

Cydnabu'r pwyllgor fod gwaith y staff wedi bod yn rhagorol yn ystod y pandemig, a chanmolwyd aelodau unigol hefyd am helpu i ddelio â sbwriel yn eu wardiau.

Roedd y cwestiynau a'r trafodaethau yn canolbwyntio ar y canlynol: -

- Perfformiadau a thueddiadau o ran yr Archwiliad Amgylcheddol Lleol a Systemau Rheoli (LEAMS) - dull monitro oedd hwn o raddio glendid strydoedd a wiriwyd ac a ddilyswyd yn annibynnol.
- Defnyddio cyllidebau Cynghorwyr Cymunedol ar gyfer gwasanaethau glanhau - darparwyd costau a lefel y gwasanaeth
- Ymateb y gwasanaeth i sbwriel a materion glanhau'r gymuned - roedd y gwasanaeth yn ceisio ymdrin â cheisiadau brys o fewn diwrnod a cheisiadau safonol o fewn 5 niwrnod.
- Tipio anghyfreithlon - adnoddau i ymdrin â thipio anghyfreithlon a chymariaethau ag awdurdodau cyfagos. Y broses o ymdrin â'r sawl sy'n tipio'n anghyfreithlon dro ar ôl tro a chludwyr gwastraff didrwydded - nodwyd ymgyrch ar y cyd ddiweddar gyda Heddlu De Cymru yr oedd y canlyniadau hyn i'w cyhoeddi'n fuan
- Baw cŵn - roedd y cyngor wedi mabwysiadu ymagwedd ymgysylltu, addysgu ac yna gorfodi fel dewis olaf, a thynnwyd sylw at anawsterau gorfodi a dal tramgwyddwyr
- Gorfodi - cafwyd trafodaeth ynghylch rhoi cyhoeddusrwydd i hysbysiadau o gosb benodol fel ataliad yn ogystal ag ystyried negeseua cyhoeddus e.e. rhybuddion o erlid ar gerbydau'r cyngor. Nodwyd bod yr ymgyrch 'Paid â thaflu sbwriel' wedi tynnu sylw pobl.
- Sbwriel a draenio - glanhau wyneb gorchuddion draeniau - yn cael ei gynnwys yn archwiliad arferol y tîm glanhau strydoedd er mwyn galluogi timau gylïau i ymdrin â draeniau blociedig - darparwyd gwell gwasanaeth am oddeutu 3 mis yn ystod tymor cwymp y dail

- Gwelliant - clywyd bod y gwasanaeth yn gweithio ar brosiect datrysiadau digidol ar gyfer glanhau a fydd yn cysylltu tipio anghyfreithlon, casgliadau gwastraff swmpus etc.
- Effaith taflu sbwriel ar fywyd gwyllt - trafodwyd y posibilrwydd o gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd yn fwy o effaith taflu sbwriel ar fywyd gwyllt.
- Casglu sbwriel o draethau - dywedwyd wrthynt am lefelau uchel o sbwriel yn enwedig yn ystod tymor yr haf, ac yn enwedig dros y 2 haf diwethaf yn ystod y pandemig oherwydd partïon niferus ar y traeth - trafodwyd y posibilrwydd o godi sbwriel yn gynharach fel bod y traethau'n lân ar gyfer y rheini sy'n nofio'n gynnar yn y bore.
- Tîm Gweithredu Amgylcheddol Cymdogaethau (NEAT) adnabyddus i - does dim bwriad i ailgychwyn ar hyn o bryd, ond roedd yn boblogaidd iawn ac roedd pawb yn awyddus i ailddechrau unwaith bod y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cadarnhau ei fod yn bosib ac yn ddiogel gwneud hynny

**<u>Polisi Ynni gan gynnwys cynhyrchu, cyflenwi a gwresogi rhanbarthol</u>**

Roedd Aelod y Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Thrawsnewid Gwasanaethau a swyddogion yn bresennol er mwyn ystyried yr adroddiad ar Sbwriel a'r Strategaeth Ynni.

Diolchodd y Cynghorydd Lewis y tîm am eu gwaith caled yn y maes hwn - roeddent yn dîm bach y dywedodd hithau eu bod yn gwneud pethau rhyfeddol.

Roedd y cwestiynau a'r trafodaethau yn canolbwyntio ar y canlynol: -

- Llywodraethu - aelodaeth a llywodraeth Bwrdd y Rhaglen Newid yn yr Hinsawdd a'r Grŵp Llywio Newid yn yr Hinsawdd.
- Cyflenwad nwy'r cyngor - eglurhad o nwy gwyrdd, y gwahaniaeth rhwng nwy gwyrdd a nwy naturiol ac i ba raddau y mae'n cael ei ddefnyddio.
- Dyfodol y grid a ffynonellau pŵer fel hydrogen, nwyon gwyrdd etc. - maes sy'n esblygu'n gyson a thechnoleg sy'n datblygu'n gyson
- Cynnig sy'n cael ei arwain gan y brifysgol ar gyfer gorsaf tanwydd hydrogen ar Fabian Way
- Tyrbinau hydrogen bach yn ardal y dociau ac ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio coredau afonydd
- Cynnydd o ran y Morlyn Llanw - mae'r cyngor yn ymrwymedig i Ynys Ynni'r Ddraig ac mae cais wedi'i gyflwyno'n ddiweddar i Gronfa Ynni Cymunedol Llywodraeth y DU i helpu i baratoi achos busnes amlinellol.
- Defnyddio £1.3 miliwn ar gyfer prosiect Cam 1 RE:FIT Cymru (Effeithlonrwydd Ynni) - uwchraddio goleuadau LED, deunydd insiwleiddio adeiladau, paneli solar ar doeon etc.
- Cynnydd o ran y fferm solar - rhagwelwyd y byddai'r cais arfaethedig yn cael ei gyflwyno o gwmpas mis Ionawr 2022.
- Posibilrwydd o ailgyflwyno cymhorthdal ar fylbiau golau ynni isel
- Yr hyn y gallai awdurdodau lleol ei wneud i gefnogi'r argyfwng newid hinsawdd ymhellach a pha adnoddau, cyllid a phwerau y byddai eu hangen er mwyn gwneud mwy - rôl i aelodau hyrwyddo'r agenda yn y gymuned h.y. cefnogi busnesau i gael grantiau etc.

Diolchwyd Aelod y Cabinet a'r Swyddogion gan y Cadeirydd

**Penderfynwyd** y bydd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu'n ysgrifennu at Aelodau'r Cabinet i adlewyrchu'r trafodaethau a rhannu barn y pwyllgor.

## 42 Adroddiadau Cynnydd y Panel Craffu Perfformiad: Gwasanaethau i Oedolion (Y Cynghorydd Sue Jones, Cynullydd)

Cyflwynodd y Cynghorydd Sue Jones, Cynullydd, yr Adroddiad Diweddaru ar Berfformiad y Gwasanaethau i Oedolion

Mewn perthynas â'r adroddiad ysgrifenedig a ddarparwyd, mynegodd bryder yn benodol am ddyfodol gofal cymdeithasol a thynnodd sylw at y ffaith bod gofalwyr pobl ag anableddau dysgu'n cael problemau defnyddio'r gwasanaethau dydd gan nad ydynt yn gweithredu'n llwyr eto. Diolchodd hefyd i'r holl staff am eu hymdrechion.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Sue Jones am y diweddariad.

**Penderfynwyd** nodi'r diweddariad.

## 43 Adroddiadau Craffu - Adroddiad Effaith.

Cyflwynodd y Cadeirydd yr Adroddiadau Craffu - Adroddiad Effaith

**Penderfynwyd** y bydd yr Adroddiadau Craffu - Adroddiad Effaith yn mynd gerbron y cyngor.

## 44 Aelodaeth Paneli a Gweithgorau Craffu.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad am aelodaeth paneli a gweithgorau craffu.

**Penderfynwyd** cymeradwyo aelodaeth y Gweithgor Craffu Dinas Iach fel y'i hamlinellir yn yr adroddiad.

## 45 Rhaglen Waith Craffu.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad am y Rhaglen Waith Craffu.

Trefnwyd cynnal cyfarfod nesaf Pwyllgor y Rhaglen Graffu ar 19 Mis Hydref 2021. Y prif eitemau a drefnwyd oedd diweddariad ar y Cynllun Adfer a Thrawsnewid a'r Adroddiad Diogelu Corfforaethol Blynyddol. Trefnwyd i'r Cadeirydd Llywodraethu a'r Pwyllgor Archwilio fynd i'r cyfarfod.

**Penderfynwyd** nodi'r adroddiad.

## 46 Llythyrau Craffu.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad ar 'Lythyrau Craffu' er gwybodaeth.

Cafodd llythyr ei gynnwys oddi wrth y Gweithgor Gwasanaethau Bysus. Byddai hyn yn cael ei symud ymlaen i'r cyfarfod nesaf er mwyn i'r Cynghorydd Lyndon Jones, Cynullydd, siarad â'r pwyllgor am waith y gweithgor.

**Penderfynwyd** gohirio'r ohebiaeth sy'n ymwneud â Gweithgor y Gwasanaethau Bysus tan y cyfarfod nesaf, a'i drafod bryd hynny.

## 47 Dyddiad ac Amser Cyfarfodydd Paneli/Gweithgorau Sydd ar Ddod.

Nodwyd dyddiadau ac amserau cyfarfodydd nesaf paneli/gweithgorau.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.30 pm

**Cadeirydd**